| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD :** | **22 Hydref 2009** |
| **TEITL :** | **Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDIAD:** | **Ystyried argymhelliad y Panel Ymgynghorol** |

**1. Cefndir**

1.1 Penderfynodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 7 Mai 2009, i gynyddu'r nifer o aelodau annibynnol ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor o bedwar i bump.

1.2. O dan y ddeddfwriaeth berthnasol mae'n rhaid i Banel Ymgynghorol ystyried y ceisiadau ac yna argymell wrth y Cyngor pa ymgeisydd i'w benodi. Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor Safonau (yn cynnwys un aelod etholedig) ac, yn unol â'r gofynion statudol, gynrychiolydd o'r cynghorau cymuned ac 'aelod lleyg', sydd heb gysylltiad uniongyrchol â llywodraeth leol. Rôl y Panel yw ystyried pob cais a dderbynnir gan ddefnyddio meini prawf y Cyngor ar gyfer penodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor. Tra mai'r Cyngor sydd i wneud y penodiad, mae'n rhaid iddo roi sylw i argymhellion y panel.

1.3 Hysbysebwyd am ymgeiswyr yn unol â'r gofynion statudol a derbyniwyd tri chais. Cyfwelwyd y tri ymgeisydd gan y Panel Ymgynghorol ar 8 Hydref 2009.

1.4 Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrylwyr o'r ceisiadau, penderfynodd y Panel argymell Mr Gwyn Williams i'r Cyngor fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Mae Mr Williams yn byw ym Methel ac yn Brif Weithredwr ar gwmni teledu Barcud Derwen yng Nghaernarfon.

**2. Argymhelliad**

2.1 Penodi Mr Gwyn Williams yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd, i wasanaethau am 6 mlynedd.